



## Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Pŵer Nwy Abergelli

### 1.1.1 Cyflwyniad i'r Ymgeisydd – Cyfieithiad Cymraeg

Deddf Cynllunio 2008  
Rheoliadau Cynllunio Seilwaith  
(Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

Cyfeirnod PINS:	EN010069
Cyfeirnod y Ddogfen:	1.1.1
Rhif y Rheoleiddiad:	5(2)(q)
Awdur:	Peter Brett Associates LLP

Diwygio  
0

Dyddiad  
Mai 2018

Disgrifiad  
Fersiwn a gyflwynir





1.	<b>CYFLWYNIAD</b>	3	
2.	<b>Y FFRAMWAITH CANIATÁU</b>	4	
3.	<b>Y BROSES DCO CYN Y CAIS</b>	6	
4.	<b>MANYLION Y PROSIECT</b>	6	
5.	<b>YR YMGEISYDD</b>	8	
6.	<b>DOGFENNAU'R CAIS A'U CYDYMFFURFIAETH Â GOFYNION DEDDFWRIAETHOL</b>		10
7.	<b>Y CAIS AM DCO A'I BROSES ARCHWILIO</b>	16	

## 1. CYFLWYNIAD

### Trosolwg

- 1.1 Mae Abergelli Power Limited ("APL") yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ("PA 2008") ar gyfer orsaf gynhyrchu nwy, ag allbwn trydanol o hyd at 299 megawat ("MW"), yn Fferm Abergelli, ger Felindre yng Nghymru.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth am APL, yr ymgeisydd am Orchymyn Abergelli Power (Gorsaf Bŵer Nwy) (y "Gorchymyn"), a'r cais arfaethedig (y "Cais") am ganiatâd datblygu y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi'r gyfres o ddogfennau a gynhwysir yn y Cais.
- 1.3 I roi trosolwg o'r Prosiect cyfan, mae'r ddogfen hon hefyd yn amlinellu'r elfennau eraill o ddatblygiad adeiledig na cheisir caniatâd amdanynt o dan delerau'r Gorchymyn, ac mae'n egluro sut y bydd yr elfennau hyn yn cael eu caniatáu.

### Trosolwg o'r Prosiect

- 1.4 Mae Abergelli Power Ltd (APL) yn bwriadu adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu pŵer brig Tyrbin Nwy Cylch Agored ("OCGT") (y "Gwaith Cynhyrchu Pŵer") a chysylltiadau newydd â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir gerllaw Gorsaf Gywasgu Nwy Felindre yn Fferm Abergelli, Felindre, Abertawe SA5 7NN (y "Prosiect")
- 1.5 Mae prosiect APL wedi'i rannu'n dair elfen wahanol a ddisgrifir isod, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r "Prosiect". Cyfeirir at yr elfennau hyn fel y Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy, a'r Cysylltiad Trydanol.
- 1.6 Mae tair prif elfen y Prosiect yn cynnwys:
  - Gorsaf gynhyrchu pŵer brig Tyrbin Nwy Cylch Agored (OCGT), a bwerir gan nwy naturiol ac sy'n gallu darparu allbwn trydanol graddedig o hyd at 299 Megawat (MW). Mae'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys:
    - Cyfarpar Cynhyrchu gan gynnwys un Generadur Tyrbin Nwy ag un stac fflw nwy gwag a'r Cydrannau Ategol a'r Systemau Cynorthwyol (BOP) (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Cyfarpar Cynhyrchu"), sydd wedi'u lleoli ar "Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu";
    - Ffordd Fynediad i Safle'r Prosiect o'r B4489 a leolir tua'r gorllewin, a ffurfir trwy uwchraddio ffordd fynediad bresennol rhwng cyffordd B4489 ac Isorsaf Gogledd Abertawe (yr "Isorsaf") ac adeiladu rhan newydd o ffordd fynediad o'r Isorsaf i Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu; a
    - Chwrt adeiladu dros dro i storio deunyddiau, offer a chyfarpar yn ogystal â chynnwys adeiladau a chyfleusterau lles y safle, llefydd parcio ceir dros dro a ffensys dros dro (y "Llecyn Storio"). Cedwir llecyn bychan o fewn yr Llecyn Storio yn barhaol (y "Cwrt Cynnal").

- Llecyn Lliniaru Effaith ar Ecoleg - llecyn ar gyfer gwelliannau ecolegol o fewn Ffin Safle'r Prosiect
- Parcio a draenio parhaol i gynnwys: system draenio dŵr budr ac olewaidd a dŵr wyneb.
- Cysylltiad Nwy ar ffurf Gosodiad Ar Ben Tir (AGI) newydd a chysylltiad nwy tanddaearol (y "Bibell Nwy") i ddod â nwy naturiol i'r Cyfarpar Cynhyrchu o'r System Genedlaethol ar gyfer Trawsyrro Nwy; a

1.6.1 Chysylltiad Trydanol ar ffurf cebl trydanol tanddaearol i allforio pŵer o'r Cyfarpar Cynhyrchu i System Trawsyrro Trydan y Grid Cenedlaethol (NETS).

### Caniatadau perthnasol

- 1.7 Mae APL yn gwneud cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ("PA 2008") ar gyfer pwerau i adeiladu, gweithredu a chynnal y Gwaith Cynhyrchu Pŵer (y "datblygiad awdurdodedig").
- 1.8 Ar wahân, bydd APL yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio neu'n dibynnu ar hawliau datblygu a ganiateir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA 1990") am ganiatâd i ddatblygu'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol. Nid yw'r cais am DCO yn cynnwys unrhyw ddatblygiad sy'n ofynnol ar gyfer y Cysylltiad Nwy neu'r Cysylltiad Trydanol yn y rhestr waith. Eglurir y fframwaith caniatáu sy'n berthnasol i'r Prosiect ymhellach yn Adran 2.

### Lleoliad y Prosiect

- 1.9 Lleolir y Prosiect ar dir amaethyddol agored sydd tua 2 km i'r gogledd o Gyffordd 46 yr M4 o fewn ffin weinyddol Dinas a Sir Abertawe (DaSA).
- 1.10 Cyfeirir at y tir y byddai'r Prosiect yn cael ei ddatblygu arno, neu a fyddai'n ofynnol er mwyn hwyluso datblygiad y Prosiect, fel "Tir y Gorchymyn". Mae APL yn ceisio pwerau caffael gorfodol (i gaffael tir, i greu hawliau newydd a meddiannu tir dros dro) dros Dir y Gorchymyn er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Prosiect.
- 1.11 Disgrifir y Prosiect yn fanylach yn Adran 4.

## **2. Y FFRAMWAITH CANIATÁU**

### Caniatâd Datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008

#### *Y Gwaith Cynhyrchu Pŵer*

- 2.1 Byddai gan y Gwaith Cynhyrchu Pŵer allbwn trydanol graddedig o hyd at 299 MW o drydan ac felly fe'i ystyrir yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ("NSIP") o dan Adran 15 Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) ("PA 2008").

- 2.2 O'r herwydd, mae APL yn gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol ("SoS") ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol o dan adran 31 PA 2008 am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") i gael pwerau i adeiladu, gweithredu a chynnal y Gwaith Cynhyrchu Pŵer.

#### *Datblygiad Cysylltiedig*

- 2.3 Mae'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol yn cynnwys datblygiad sy'n gysylltiedig â'r NSIP ("datblygiad cysylltiedig").
- 2.4 Mae PA 2008 yn cyfyngu ar ddatblygiad cysylltiedig y gellir ceisio caniatâd amdano o dan DCO yng Nghymru i ddatblygiad a gysylltir â gorsaf gynhyrchu â capasiti sy'n fwy na 350MW. Byddai gan y Gwaith Cynhyrchu Pŵer allbwn trydanol graddedig o hyd at 299 MW, felly ni ellir cynnwys datblygiad cysylltiedig â'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer mewn unrhyw gais ar gyfer DCO o dan Ddeddf 2008. Felly, mae'r cais am DCO yn cynnwys y Gwaith Cynhyrchu a lliniaru cysylltiedig fel "datblygiad awdurdodedig" yn unig ac nid yw'n ceisio caniatâd datblygu ar gyfer y Cysylltiad Nwy neu'r Cysylltiad Trydanol.

#### Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995

- 2.5 Bydd APL yn ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer y Cysylltiad Nwy o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA 1990"). Gellid caniatáu'r Cysylltiad Trydanol naill ai trwy TCPA 1990 neu fel datblygiad a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("GPDO").

#### Deddf Cymru 2017

- 2.6 Bydd Deddf Cymru 2017 ("WA 2017") yn trosglwyddo pwerau gwneud penderfyniadau gan yr SoS (o dan PA 2008) i Lywodraeth Cymru, mewn cysylltiad â gorsafoedd cynhyrchu trydan hyd at gapasiti o 350MW. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn wedi dod i rym eto. Y dyddiad y rhagwelir y bydd datganoli'r pwerau hyn yn dod i rym yw 1 Ebrill 2019. Yn unol â hynny, mae'r gyfundrefn ganiatáu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig yn parhau i fod yn PA 2008.

#### Caffael Gorfodol

- 2.7 Yn ogystal â cheisio caniatâd datblygu yn y Gorchymyn ar gyfer y Gwaith Cynhyrchu Pŵer, mae APL hefyd yn ceisio pwerau caffael gorfodol dros Dir y Gorchymyn, er mwyn awdurdodi caffael tir, defnydd dros dro o dir, creu hawliau newydd parhaol ac atal, gwrthwneud a diddymu unrhyw hawliau, cyfyngiadau, hawddfrentiau neu gaethwasanaethau er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Prosiect.
- 2.8 Mae Cynlluniau Tir (Cyfeirnod Dogfen 2.2), Datganiad o Rhesymau (Cyfeirnod Dogfen 4.1) a Llyfr Cyfeirio (Cyfeirnod Dogfen 4.3) wedi'u cynnwys gyda'r Cais. Mae'r Cynlluniau Tir yn dangos y tir i'w gaffael, y tir i'w ddefnyddio dros dro a'r tir y ceisir hawliau parhaol drosto. Cyfeirir at y tir a ddangosir ar y Cynlluniau Tir fel "Tir y Gorchymyn". Mae'r Llyfr Cyfeirio yn disgrifio'r tir hwn yn fwy manwl ac mae'r Datganiad Rhesymau'n esbonio pam mae pwerau caffael gorfodol yn cael eu ceisio yn y Gorchymyn.

2.9 Mae'r Cynlluniau Gwaith (Cyfeirnod Dogfen 2.3), Cynllun Gosodiad Dangosol y Safle (Cyfeirnod Dogfen 2.6) a'r Darluniau Gweddol Dangosol (Cyfeirnod Dogfen 2.7) yn rhoi manylion am y datblygiad y ceisir caniatâd datblygu ar ei gyfer. Dangosir maint y gwaith y ceisir caniatâd datblygu ar ei gyfer yn y DCO (ynghyd â therfynau gwyro perthnasol) ar y cynlluniau a chyfeirir ato fel "Terfynau'r Gorchymyn".

### 3. Y BROSES DCO CYN Y CAIS

3.1 O dan PA 2008, mae'n ofynnol i APL ymgynghori ar y cais am y DCO ag ystod eang o ymgynghoreion, gan gynnwys ymgynghoreion statudol, awdurdodau lleol, perchnogion, lesddeiliaid, tenantiaid, y sawl sydd â buddiant yn y tir a'r gymuned leol. Mae cwmpas yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan APL yn cwmpasu'r datblygiad awdurdodedig y gwneir cais amdano o dan PA 2008 ac mewn cysylltiad â Thir y Gorchymyn y ceisir pwerau caffael gorfodol drosto. Felly mae APL wedi ymgymryd ag ymgynghoriad mewn cysylltiad â'r datblygiad awdurdodedig a maint llawn Tir y Gorchymyn. Roedd yr Adroddiadau Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) a gynhyrchwyd i gyd-fynd â'r ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol mewn cysylltiad ag effeithiau arwyddocaol tebygol y Prosiect yn gyffredinol, a'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy fel elfennau ar wahân o'r Prosiect.

3.2 Mae APL wedi cynnal ymgynghoriad cyn y cais ar y Prosiect yn unol â Rhan 5, Pennod 2 PA 2008, gan gynnwys yr ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan Adrannau 42, 47 a 48 a'r hysbysiad a dyletswyddau eraill o dan PA 2008 a'r Rheoliadau perthnasol (gan gynnwys y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009). Yn ogystal, mae APL wedi ystyried ac wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arolygiaeth Gynllunio wrth gynnal ei ymgynghoriad cyn y cais.

3.3 Cynhaliwyd Ymgynghoriad ar y Prosiect gan APL ers mis Mehefin 2014, ar ffurf camau lluosog ymgynghori anstatudol a dau gyfnod o ymgynghori statudol. Yn ystod bob cam, mae APL wedi ymgynghori'n rheolaidd â CCS, sef yr awdurdod cynnal ar gyfer y Prosiect, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol megis Cyfoeth Naturiol Cymru ("NRW"). Yn ogystal, mae APL wedi ymgysylltu'n weithredol â thirfeddianwyr a'r rhai hynny sydd â buddiant yn y tir y mae'r Prosiect yn effeithio arnynt.

3.4 Ynghyd â'r Cais, mae Adroddiad Ymgynghori (Cyfeirnod Dogfen 5.1.0) (Tabl 1) sy'n esbonio'r ymgynghoriad cyn y cais a wnaed yn ogystal â'r ystyriaeth mae APL wedi'i rhoi i ymatebion i'r ymgynghoriad wrth lunio'r Cais.

3.5 Darperir rhagor o wybodaeth ar y prosesau y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn eu dilyn ar ôl i APL gyflwyno'r Cais yn adran 7 isod. Hefyd dylid cyfeirio at y wybodaeth ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: <http://infrastructure.planningportal.gov.uk/>

### 4. MANYLION Y PROSIECT

4.1 Fel yr eglurir uchod, mae'r Prosiect yn cynnwys y Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol.

4.2 Cyflwynir disgrifiad cryno o'r elfennau a gynhwysir yn y Prosiect isod. Mae rhagor o fanylion am yr elfennau hyn i'w gweld ym Mhennod 3 y Datganiad Amgylcheddol (ES) (Cyfeirnod Dogfen 6.1).

### Y Gwaith Cynhyrchu Pŵer

- 4.3 Mae'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys y Cyfarpar Cynhyrchu, Man Storio, Ffordd Fynediad, Llecyn Lliniaru'r Effaith ar Ecoleg a pharcio a draenio parhaol, fel sydd wedi'i egluro ymhellach isod.
- 4.4 Mae Atodlen 1 i'r Gorchymyn drafft (Cyfeirnod Dogfen 3.1) yn cyflwyno disgrifiad ffurfiol y Gwaith Cynhyrchu Pŵer. Dangosir y gwaith hwn ar y Cynlluniau Gwaith (Cyfeirnod Dogfen 2.3).
- 4.5 Dangosir lleoliad y Gwaith Cynhyrchu Pŵer ar y Cynlluniau Tir (Cyfeirnod Dogfen 2.2) a dangosir y gwahanol elfennau a gynhwysir yn y Gwaith Cynhyrchu Pŵer ar y Cynlluniau Gwaith (Cyfeirnod Dogfen 2.3).
- 4.6 Ceisir caniatâd datblygu ar gyfer y Gwaith Cynhyrchu Pŵer gan gais am DCO o dan PA 2008.

#### *Cyfarpar Cynhyrchu*

- 4.7 Byddai un Generadur Tyrbin Nwy yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu hyd at 299 MW, â stac fflw allyriadau a fyddai rhwng 35m a 45m o uchder.
- 4.8 Byddai'r Cyfarpar Cynhyrchu hefyd yn cynnwys: cwrt trawsnewidydd trydanol, gorsaf derbyn nwy naturiol, generadur argyfwng, tanciau dŵr, ystafell reoli, oerwyr gwyntyll adain ac adeiladau a strwythurau cymorth.

#### *Llecyn Storio*

- 4.9 Darperir Llecyn Storio dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu i storio deunyddiau, offer a chyfarpar yn ogystal â chynnwys llety a chyfleusterau lles y safle, llefydd parcio ceir dros dro a ffensys dros dro Darperir y Llecyn Storio gerllaw Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu. Mae angen llecyn parhaol bach o fewn y Llecyn Storio ar gyfer cynnal a chadw yn ystod cyfnod gweithredol y Prosiect.

#### *Ffordd Fynediad*

- 4.10 Caiff Ffordd Fynediad i Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu o'r B4489 ei ffurfio trwy uwchraddio ffordd fynediad bresennol rhwng cyffordd B4489 a'r Isorsaf ac adeiladu adran newydd o ffordd o'r Isorsaf i Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu;

#### *Llecyn Lliniaru'r Effaith ar Ecoleg*

- 4.11 Dyrannwyd llecyn o fewn Tir y Gorchymyn fel modd o liniaru ar gyfer colli cynefinoedd oherwydd bod tir yn cael ei gymryd yn barhaol yn sgil adeiladu a gweithredu'r Prosiect.

#### *Parcio Ceir*



- 4.12 Yn ystod y gwaith adeiladu, byddai maes parcio digonol yn cael ei ddarparu o fewn y Llecyn Storio. Yn ystod y cyfnod gweithredu, byddai maes parcio ar gyfer staff gweithredol a chynnal yn cael ei ddarparu yn Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu.

#### *Goleuadau a Ffensys Diogelwch*

- 4.13 Byddai colofnau goleuo'n cael eu codi o amgylch perimedr y Cyfarpar Cynhyrchu er mwyn darparu goleuadau diogelwch a goleuadau i weithio'n ddiogel dan amgylchiadau tywyll. Byddai'r colofnau goleuo oddeutu 8m o uchder ac yn cael eu lleoli â bylchau cyfartal rhyngddynt o gwmpas perimedr Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu.

#### *Draenio*

- 4.14 Bydd ar yr Prosiect angen system draenio dŵr budr y safle, a system draenio dŵr olewog. Hefyd bydd system draenio dŵr wyneb yn ofynnol i ddraenio'r safle yn ddigonol ac atal pyllau rhag ffurfio. Er mwyn atal dŵr wyneb rhag gorlifo Safle'r Prosiect, bydd ffosydd draenio yn cael eu gosod o gwmpas perimedr esgynnol y safle.

#### Y Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy

- 4.15 Mae'r Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy yn cynnwys datblygiad cysylltiedig y ceisir caniatâd cynllunio amdano o dan TCPA 1990 ar gyfer y Cysylltiad Nwy â'r Cysylltiad Trydanol naill ai'n cael ei ganiatáu trwy TCPA 1990 neu fel datblygiad a ganiateir o dan y GPDO. Ni cheisir caniatâd datblygu ar gyfer y Cysylltiad Trydanol a'r Chysylltiad Nwy o fewn y DCO.

#### *Y Cysylltiad Trydanol*

- 4.16 Bydd y Cysylltiad Trydanol yn cynnwys cebl trydanol tanddaearol i allforio pŵer o'r Cyfarpar Cynhyrchu i'r NETS yn yr Isorsaf. Bydd hyn yn cynnwys cebl 400 kV, oddeutu 900m o hyd, o Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu i gilfach cyfarpar switsio wedi'i hinswleiddio rhag nwy ("GIS") o fewn yr Is-orsaf.

#### *Y Cysylltiad Nwy*

- 4.17 Bydd y Cysylltiad Nwy yn cynnwys cysylltiad piblinell nwy tanddaearol newydd i ddod â nwy naturiol i'r Cyfarpar Cynhyrchu o rwydwaith nwy pwysedd uchel presennol y System Drawsyrru Genedlaethol. Bydd y Cysylltiad Nwy yn cynnwys Gosodiad Ar Ben Tir ("AGI") sy'n cynnwys Cyfleuster Maglu ("PTF") Mesurydd Archwilio Piblinell ("PIG") ynghyd â Chysylltiad Isafswm Gwaredu ("MOC"), a Phiblinell Nwy a osodir i'r orsaf sy'n derbyn nwy yn Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu.

## **5. YR YMGEISYDD**

- 5.1 APL yw'r ymgeisydd ar gyfer y Prosiect. Mae APL wedi'i gofrestru yn Lloegr (Rhif Cwmni 8190497) ac mae'n is-gwmni sy'n eiddo i Drax Group ccc (Drax), Rhif Cwmni 05562053.
- 5.2 Mae swyddfa gofrestredig APL yng Ngorsaf Bŵer Drax, Drax, Selby, Gogledd Swydd Efrog, y Deyrnas Unedig, YO8 8PH.

- 5.3 Mae Drax yn gyfrifol am gynhyrchu 6% o drydan y DU, yn bennaf trwy orsaf bŵer Drax yn Selby. Mae Drax yn un o gynhyrchwyr ynni mwyaf y Deyrnas Unedig ac mae'n ymrwymo i helpu i leihau allyriadau carbon, gan ddisodli mwy o lo oddi ar y system a darparu cymorth system ychwanegol i lenwi'r bylchau a grëir gan ynni adnewyddadwy ysbeidiol a hybu diogelwch y cyflenwad.
- 5.4 Fe wnaeth Drax gaffael APL gan Watt Power Limited (Watt Power) yn 2016. Yn flaenorol roedd Stag Energy Development Company Ltd (Stag Energy) yn darparu gwasanaethau rheoli i Watt Power mewn perthynas ag APL. Mae Stag Energy yn parhau i ddarparu adnoddau i APL trwy gytundeb gwasanaethau rheoli. Sefydlwyd Stag Energy yn 2002 ac mae'r cwmni'n elwa o brofiad sylweddol o fewn tîm sydd wedi creu a chyflenwi dros 10,000 MW o brosiectau cynhyrchu pŵer a seilwaith cysylltiedig ledled y byd, ac mae 2,500 MW o hynny wedi ei gyflenwi yn y DU.
- 5.5 Ar hyn o bryd mae gan Drax dri phrosiect cynhyrchu pŵer tebyg sydd naill ai eisoes wedi cael caniatâd o dan y broses PA 2008 neu sy'n cael eu datblygu drwy'r broses honno.
- 5.6 Y prosiectau hynny yw: Progress Power Ltd yn Eye Airfield yn Suffolk ([www.progresspower.co.uk](http://www.progresspower.co.uk)): Hirwaun Power Ltd yn Hirwaun yn Ne Cymru ([www.hirwaunpower.co.uk](http://www.hirwaunpower.co.uk)): a Millbrook Power Ltd yn Rookery South, ger Stewartby, Swydd Bedford ([www.millbrookpower.co.uk](http://www.millbrookpower.co.uk)). Rhoddwyd Caniatâd Datblygiad i'r ddau brosiect a restrwyd gyntaf ym mis Gorffennaf 2015. Dechreuodd Archwiliad o Gais DCO Millbrook Power Ltd ar 13 Mawrth 2018.
- 5.7 Mae APL wedi ymrwymo i ddatblygu asedau i ategu ymgyrch Llywodraeth y DU i sicrhau economi carbon isel. Mae APL yn cydnabod yr angen i gydbwyso materion masnachol â'r manteision a phryderon amgylcheddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni ac mae'n credu y gellir sicrhau'r cydbwysedd hwn yn gyfrifol. Byddai'r Prosiect yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu hyd at safonau diogelwch ac amgylcheddol o ansawdd uchel.
- 5.8 Ceir rhagor o wybodaeth am y cwmnïau y cyfeirir atynt uchod yn [www.abergellipower.co.uk](http://www.abergellipower.co.uk) or [www.drax.com](http://www.drax.com).
- 5.9 Mae APL wedi penodi'r canlynol fel ei ymgynghorwyr allanol mewn perthynas â'r Prosiect:
- AECOM – gwasanaethau amgylcheddol;
  - Peter Brett Associates – gwasanaethau cynllunio;
  - Carter Jonas Limited – gwasanaethau cyfeirio tir;
  - WSP – gwasanaethau peiriannu;
  - Grasshopper – cysylltiadau cyhoeddus; a
  - Pinsent Masons LLP – gwasanaethau cyfreithiol.

## 6. DOGFENNAU'R CAIS A'U CYDYMFFURFIAETH Â GOFYNION DEDDFWRIAETHOL

- 6.1 Mae Tabl 1 isod yn darparu canllaw i'r dogfennau y mae APL yn eu cyflwyno fel rhan o'r Cais hwn. Yn ogystal â darparu rhestr o brif ddogfennau'r cais, mae hefyd yn nodi lle mae dogfennau'n cael eu cyflwyno er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol neu bolisi perthnasol.
- 6.2 Mae'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer ceisiadau am DCO yn cael eu cynnwys yn bennaf yn y PA 2008, a'r rheoliadau dilynol:
- Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009 (fel y'u diwygiwyd) (y "Rheoliadau APFP"); a'r
  - Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009<sup>1</sup> ("Rheoliadau EIA").
- 6.3 Mae Rheoliad 5 yn Rheoliadau APFP yn nodi'r dogfennau y mae'n rhaid i bob cais am ganiatâd datblygu eu cynnwys ac mae Rheoliad 6 yn nodi'r dogfennau y mae'n rhaid i'r mathau penodol o geisiadau am ganiatâd datblygu eu cynnwys - mae'r rhai sy'n ymwneud â gorsafodded cynhyrchu yn berthnasol i'r Prosiect. Mae'r cyfeiriadau yn Nhabl 1 isod megis "Rheol 5(2)(b)" yn ymwneud â Rheoliadau APFP ac mae'r rhai hynny megis "A.37(3)(c)" yn ymwneud â PA 2008.
- 6.4 Mae rheoliad 5 o Rheoliadau APFP yn cynnwys categori a ddisgrifir fel "unrhyw ddogfennau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais" (Rheol 5(2)(q)). Yn yr un modd mae Rheoliad 5 hefyd yn caniatáu i APL gyflwyno cynlluniau, lluniadau a trawsluniau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r Prosiect (Rheol 5(2)(o)). Felly, nid yw'r dogfennau a ddarperir gan APL ac sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n ymwneud â'r ddau baragraff hynny o Rheoliadau APFP yn statudol ofynnol ond dyma'r rhai y mae APL yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i ategu'r Cais.
- 6.5 Mae'r Cais a gyflwynwyd ar gyfer y Prosiect yn cydymffurfio â gofynion PA 2008, Rheoliadau APFP, Rheoliadau EIA a chyfarwyddyd perthnasol SoS a'r Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys yn benodol Nodyn Cyngor 6 yr Arolygiaeth Gynllunio (Paratoi a chyflwyno dogfennau cais, a ailgyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017)

**Tabl 1 Canllaw i Ddogfennau'r Cais am DCO**

<b>Mae'r tabl hwn yn rhoi canllaw i'r holl ddogfennau a gyflwynir fel rhan o Gais am DCO Abergelli Power.</b>		
<b>Cyfeirnod Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Enw Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Gofyniad Statudol / Arall am y Ddogfen</b>
<b>Categori 1 Ffurflen Gais</b>		
1.1.0	Cyflwyniad i'r Ymgeisydd a'r Cais (gan gynnwys mynegai dogfennau) ( <i>y ddogfen hon</i> )	Cof. 5(2)(q)
1.1.1	Cyflwyniad i'r Ymgeisydd a'r Cais (gan gynnwys mynegai dogfennau) (Cyfieithiad Cymraeg) ( <i>y ddogfen hon</i> )	Cof. 5(2)(q)
1.2	Ffurflen gais	Cof. 5(1) ac A.37(3)(b) PA 2008
1.3	Copiâu o hysbysiadau mewn papurau newydd	Cof. 5(2)(q) Cof 5(1) APFP
1.4	Geirfa'r Prosiect	Cof. 5(2)(q)
<b>Categori 2 Cynlluniau / Lluniadau / Trawsluniau</b>		
2.1	Cynllun y Lleoliad	Cof. 5(2)(o)
2.2	Cynlluniau Tir	Cof. 5(2)(i)
2.3	Cynlluniau Gwaith	Cof. 5(2)(j)
2.4	Cynlluniau Hawliau Tramwy, Strydoedd a Mynediad	Cof. 5(2)(k)
2.5	Cynllun Trefn Bresennol y Safle	Cof. 5(2)(o)
2.6	Cynllun Dangosol Trefn y Safle	Cof. 5(2)(o)
2.7	Lluniadau Gweddolun Dangosol	Cof. 5(2)(o)

<b>Mae'r tabl hwn yn rhoi canllaw i'r holl ddogfennau a gyflwynir fel rhan o Gais am DCO Abergelli Power.</b>		
<b>Cyfeirnod Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Enw Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Gofyniad Statudol / Arall am y Ddogfen</b>
2.8	Cynllun Dangosol y Cysylltiadau Nwy a Thrydan	
2.9	Cynllun Gwrychoedd	
<b>Categori 3 Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft</b>		
3.1	Gorchymyn Caniatâd Datblygu Arfaethedig Drafft	Cof. 5(2)(b)
3.2	Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn Drafft	Cof. 5(2)(c)
<b>Categori 4 Gwybodaeth ynghylch Caffael Gorfodol</b>		
4.1	Datganiad o Resymau	Cofg. 5(2)(h)
4.2	Datganiad Cyllid	Cof. 5(2)(h)
4.3	Llyfr Cyfeirio	Cof. 5(2)(d)
<b>Categori 5 Adroddiadau / Datganiadau</b>		
5.1.0	Adroddiad Ymgynghori	Cof 5(2)(q) ac a37(3)(c) PA 2008
5.1.1	Crynodeb Gweithredol yr Adroddiad Ymgynghori (Cyfieithiad Cymraeg)	Cof 5(2)(q) ac a37(3)(c) PA 2008
5.2.0	Atodiadau'r Adroddiad Ymgynghori	Cof 5(2)(q) ac a37(3)(c) PA 2008

<b>Mae'r tabl hwn yn rhoi canllaw i'r holl ddogfennau a gyflwynir fel rhan o Gais am DCO Abergelli Power.</b>		
<b>Cyfeirnod Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Enw Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Gofyniad Statudol / Arall am y Ddogfen</b>
5.3	Datganiad ynghylch Niwsans Statudol (a79 (1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)	Cof. 5(2)(f)
5.4	Manylion Caniatadau a Thrwyddedau Eraill sy'n Ofynnol	Cof. 5(2)(q) a pharagraff 4.10 NPS EN-1
5.5	Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol	Cof. 5(2)(g) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017
<b>Categori 6</b>		
<b>Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a Gwybodaeth am Reoliadau Cynefinoedd</b>		
6.1	Datganiad Amgylcheddol	<p>Cof. 5(2)(a) a'r Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009.</p> <p>Mae Dogfen Cyfeirnod 6.1 yn cynnwys y canlynol ynddi:</p> <p>(i) Asesiad o unrhyw effeithiau ar safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur (ac ati), yn ES Pennod 8 Ecoleg (Cof.5(2)(l)); ac</p> <p>(ii) Asesiad o unrhyw effeithiau ar safleoedd neu nodweddion yr amgylchedd hanesyddol, ym Mhennod 13 Amgylchedd Hanesyddol (Cof.(5)(2)(m)).</p>
6.2	Atodiadau'r Datganiad Amgylcheddol	<p>Y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 (y "Rheoliadau EIA").</p> <p>Mae Dogfen Cyfeirnod 6.2 yn cynnwys y canlynol ynddi:</p>

<b>Mae'r tabl hwn yn rhoi canllaw i'r holl ddogfennau a gyflwynir fel rhan o Gais am DCO Abergelli Power.</b>		
<b>Cyfeirnod Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Enw Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Gofyniad Statudol / Arall am y Ddogfen</b>
		Adroddiad cwmpasu effaith amgylcheddol a barn gwmpasu fel Atodiadau 4.1 a 4.2 (Cof.5(2)(a)).  Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd fel Atodiad 9.1 (Cof.5(2)(e)).
6.3	Ffigurau'r Datganiad Amgylcheddol	Cof. 5(2)(a), (5(2)(l) a 5(2)(m) a'r Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 (y "Rheoliadau EIA").
6.4.0	Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol	Y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 (y "Rheoliadau EIA").
6.4.1	Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol (Cyfieithiad Cymraeg)	Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009 ("Rheoliadau EIA").
<b>Categori 7 Ffotograffau</b>		
7.1	Ffotogyfosodiadau	Cof. 5(2)(q)
7.2	Cynllun Adnabod Lleoliadau Ffotogyfosodiadau a Chyfarwyddiadau Ffotograffau	Cof. 5(2)(q)
7.3	Mynegai Ffotograffau	Cof. 5(2)(q)
<b>Categori 8 Heb ei Ddefnyddio</b>		

<b>Mae'r tabl hwn yn rhoi canllaw i'r holl ddogfennau a gyflwynir fel rhan o Gais am DCO Abergelli Power.</b>		
<b>Cyfeirnod Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Enw Dogfen sy'n Rhan o'r Cais</b>	<b>Gofyniad Statudol / Arall am y Ddogfen</b>
-	-	-
<b>Categori 9</b> <b>Gwybodaeth Ychwanegol ar gyfer Mathau Penodol o Seilwaith</b>		
9.1	Datganiad ynghylch y Cysylltiad â'r Grid	Cof. 5(2)(p) a Chof. 6(1)(a)(i)
9.2	Datganiad ynghylch y Cysylltiad Nwy	Cof. 5(2)(p) a Chof. 6(1)(a)(ii)
<b>Categori 10</b> <b>Dogfennau Eraill</b>		
10.1.0	Datganiad Cynllunio	Cof. 5(2)(q)
10.1.1	Crynodeb Gweithredol o'r Datganiad Cynllunio (Cyfieithiad i'r Gymraeg)	Cof. 5(2)(q)
10.2	Datganiad ynghylch Egwyddorion Dylunio	Cof. 5(2)(q)
10.3	Datganiad o Benawdau Telerau Arfaethedig ar gyfer Cytundeb yn Unol ag adran 106 TCPA 1990	Cof. 5(2)(q)



## 7. Y CAIS AM DCO A'I BROSES ARCHWILIO

7.1 Ar ôl i APL gyflwyno'r Cais, mae'r broses ar gyfer ei ystyried fel sy'n dilyn:

- 7.1.1 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol 28 diwrnod o'r dyddiad y gwneir y Cais i benderfynu a ddylid ei dderbyn i'w archwilio.
- 7.1.2 Yn dilyn derbyn hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd APL yn cynnal ei ymarfer ôl-dderbyn a dyletswyddau hysbysu. Mae hyn yn cynnwys rhybuddion a hysbysebion mewn papur newyddion lleol, papur newyddion cenedlaethol a'r London Gazette, pob un yn cadarnhau manylion penodol gan gynnwys bod y Cais wedi'i dderbyn a sut y gellir cynnig sylwadau amdano, yn ogystal ag hysbysiadau i ymgynghorion statudol amrywiol.
- 7.1.3 Yna bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi un neu fwy o 'arolygwyr archwilio' (a elwir yn Awdurdod Archwilio) i archwilio'r Cais. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried dogfennau'r Cais a'r sylwadau ac yn gwahodd pob parti i fynychu 'cyfarfod rhagarweiniol', gan nodi'r hyn y mae'r awdurdod archwilio'n ystyried yw'r prif faterion, ac amserlen ddrafft ar gyfer ei archwilio.
- 7.1.4 Yn ystod neu cyn y cyfarfod rhagarweiniol, gall cyfranogwyr wneud sylwadau ynghylch sut y dylid archwilio'r Cais. Nid yw'r cyfarfod rhagarweiniol yn ystyried materion o sylwedd sy'n ymwneud â'r Cais.
- 7.1.5 Yn dilyn y cyfarfod rhagarweiniol, bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi amserlen archwilio ac mae hefyd yn debygol o gyhoeddi set gychwynnol o gwestiynau ysgrifenedig. Bydd yr amserlen yn rhoi manylion ynghylch terfynau amser ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig, gan sylwi ar sylwadau eraill, ateb cwestiynau'r awdurdod archwilio a rhoi sylwadau ar atebion pobl eraill. Gellir trefnu gwrandawiadau ar yr adeg hon, neu efallai y bydd y rhain yn cael eu cynnal yn nes ymlaen, a gall yr awdurdod archwilio gyhoeddi rhagor o gwestiynau a cheisiadau am wybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cyfrannau at archwilio'r Cais i'w chael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys yn y Nodiadau Cyngor y mae wedi eu cyhoeddi.
- 7.1.6 Bydd y cyfnod archwilio (sy'n cynnwys cyflwyno'r holl ddeunydd ysgrifenedig yn ogystal â chynnal gwrandawiadau ac ymweliadau â'r safle) yn dechrau o'r diwrnod ar ôl dyddiad y cyfarfod rhagarweiniol ac mae'n rhaid iddo gymryd dim mwy na chwe mis. Ni ellir ymestyn hyn heb awdurdodiad yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 7.1.7 Yn dilyn diwedd y cyfnod archwilio o chwe mis, rhaid i'r awdurdod archwilio gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn tri mis. Yna bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri mis arall i wneud penderfyniad ynghylch Cais.
- 7.1.8 Mae gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe rôl bwysig gyfraniad pwysig iawn i'w wneud at broses y DCO. Fe'u gwahoddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i roi sylwadau ar ansawdd proses ymgynghori APL, i gynhyrchu Adroddiad Effaith Lleol ynghylch y Prosiect a chynnig ei sylwadau ei hun i'r Awdurdod Archwilio ynghylch y Cais.
- 7.1.9 Mae APL yn croesawu gohebiaeth gan bartion a chanddynt fuddiant mewn perthynas â'r Prosiect - dylid cyfeirio cwestiynau sy'n ymwneud â'r broses archwilio i'r Arolygiaeth Gynllunio.